

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
27/09/2006

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys
Contents

- 1 Cwestiynau am Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid
Questions on Local Government to the Finance Minister

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Questions to the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills

Cwestiynau am Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid
Questions on Local Government to the Finance Minister

Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr
Gypsy/Traveller Sites

Q11 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on the local government provision for Gypsy/Traveller sites? OAQ0867(LGP)

The Finance Minister (Sue Essex): This is a matter for each local authority. However, as a result of the recent report that we commissioned on the accommodation needs of Gypsy/Travellers, we are considering the establishment of a Gypsy/Traveller refurbishment grant scheme in 2006-07, subject to the normal budget planning processes.

C11 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth llywodraeth leol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr? OAQ0867(LGP)

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Mater i bob un awdurdod lleol yw hwn. Fodd bynnag, o ganlyniad i adroddiad diweddar a gomisiynwyd gennym ar anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, yr ydym yn ystyried sefydlu cynllun grant adnewyddu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn 2006-07, a fydd yn amodol ar y prosesau cynllunio'r gyllideb arferol.

Blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer Llywodraeth Leol
The Minister's Priorities for Local Government

Q12 Irene James: Will the Minister make a statement about her priorities for local government? OAQ0876(LGP)

Sue Essex: The Government's priorities for local government were trailed in the last policy statement, 'Freedom and Responsibility in Local Government', and laid out in detail in policy agreements wherein local and national targets for performance were negotiated. Our national

C12 Irene James: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol? OAQ0876(LGP)

Sue Essex: Cafwyd golwg ar flaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer llywodraeth leol yn y datganiad polisi diwethaf, sef 'Rhyddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol', a manylwyd ar eu cynnwys mewn cytundebau polisi lle y negodwyd targedau perfformiad lleol a chenedlaethol. Yr oedd ein targedau

targets covered a range of matters, but had a focus on social care and vulnerable people.

enedlaethol yn cynnwys ystod o faterion ond yr oeddent yn canolbwtio ar ofal cymdeithasol a phobl sy'n agored i niwed.

Y Dreth Gyngor Council Tax

Q13 Janet Davies: Will the Minister make a statement on the effectiveness of Welsh Assembly Government initiatives to make council tax a more progressive system? OAQ0850(LGP)

C13 Janet Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithiolrwydd ymgyrchoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud y dreth gyngor yn system fwy blaengar? OAQ0850(LGP)

Sue Essex: Adding an extra valuation band at the top of the scale for very high valued properties has gone some way towards achieving more progression in the banding system. Homes in the highest band pay three and a half times more council tax than homes in band D.

Sue Essex: Mae ychwanegu band prisio arall ar ben y raddfa ar gyfer eiddo gwerthfawr iawn wedi cychwyn y gwaith o sicrhau mwy o flaengaredd yn y system fandio. Mae'r cartrefi sydd yn y band uchaf yn talu tair gwaith a hanner cymaint o'r dreth gyngor na chartrefi ym mand D.

Cynnydd ym Mhraesept yr Heddlu Increase in the Police Precept

C14 Alun Ffred Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd ym mhraesept yr heddlu er 1999? OAQ0859(LGP)

Q14 Alun Ffred Jones: Will the Minister make a statement on the increase in the police precept since 1999? OAQ0859(LGP)

Sue Essex: The average police precept in Wales has increased from £66 in 1999-2000 to £145 in 2006-07. This is an increase of 120 per cent. The overall increase in band D council tax over the same period is 60 per cent, from £602 to £962.

Sue Essex: Mae praesept cyfartalog yr heddlu yng Nghymru wedi codi o £66 yn 1999-2000 i £145 yn 2006-07. Dyma gynnydd o 120 y cant. Yn ystod yr un cyfnod, mae band D y dreth gyngor wedi codi 60 y cant yn gyffredinol, o £602 i £962.

Y Sectorau Annibynnol a Gwirfoddol The Independent and Voluntary Sectors

Q15 David Melding: Will the Minister make a statement on the use of the independent and voluntary sectors in the provision of public services in Wales? OAQ0897(LGP)

C15 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio'r sectorau annibynnol a gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ0897(LGP)

Sue Essex: We shall reflect the key role of the independent and voluntary sectors in public service development in our response to Beecham. We are also currently developing a strategic action plan for the voluntary sector, which will go out to public consultation in December 2006.

Sue Essex: Yn ein hymateb i Beecham, byddwn yn dangos rôl allweddol y sectorau annibynnol a gwirfoddol wrth ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus. Yr ydym hefyd ar hyn o bryd yn datblygu cynllun gweithredu strategol ar gyfer y sector gwirfoddol, a bydd hwnnw'n destun ymgyngoriad cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2006.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Questions to the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills

Hyrwyddo Gwyddoniaeth Promoting Science

Q12 Peter Black: How is the Minister promoting science at a higher education level? OAQ0980(ELL)

C12 Peter Black: Sut mae'r Gweinidog yn hyrwyddo gwyddoniaeth ar lefel addysg uwch? OAQ0980(ELL)

The Minister for Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Davidson): I am supporting excellence in teaching and research through 'Reaching Higher' with funding of £5 million to support the Wales Centre for Cognitive Neuroscience and £11 million for a research and enterprise partnership. I am also supporting action to attract students such as First Campus's innovative robotics and forensic science activities for schools.

Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson): Yr wyf yn cefnogi rhagoriaeth mewn addysgu ac ymchwil drwy 'Ymgeisio yn Uwch' â chyllid o £5 miliwn i gefnogi Canolfan Cymru ar gyfer Niwrowyddoniaeth Wybyddol ac £11 miliwn ar gyfer partneriaeth ymchwil a menter. Yr wyf hefyd yn cefnogi gweithredu i ddenu myfyrwyr, megis gweithgareddau roboteg a gwyddoniaeth ffforensig Campws Cyntaf ar gyfer ysgolion.

Ariannu Ysgolion School Funding

Q13 Lynne Neagle: What discussions has the Minister had with partners in local government following the publication of the Committee on School Funding's report? OAQ1027(ELL)

C13 Lynne Neagle: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Ariannu Ysgolion? OAQ1027(ELL)

Jane Davidson: I discussed the report of the Committee on School Funding when I met lead Cabinet Members and directors of education on 14 September. Assembly Government officials had various discussions and other communication about the report with Welsh Local Government Association representatives on my behalf over the summer.

Jane Davidson: Trafodais adroddiad y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion pan gwrddais â phrif Aelodau'r Cabinet a chyfarwyddwyr addysg ar 14 Medi. Yn ystod yr haf, trafododd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yr adroddiad nifer o weithiau â chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar fy rhan i, a chyfathrebu fel arall hefyd.

Anableddau Dysgu Learning Disabilities

Q14 Jenny Randerson: What is the Minister doing to ensure early recognition of learning disabilities in schools across Wales? OAQ1005(ELL)

C14 Jenny Randerson: Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod anableddau dysgu yn cael eu nodi'n gynnar mewn ysgolion ledled Cymru? OAQ1005(ELL)

Jane Davidson: Early identification and intervention are key themes in the Welsh Assembly Government's 'Framework for the

Jane Davidson: Mae darganfod anableddau dysgu yn gynnar ac ymyrryd yn themâu allweddol yn 'Fframwaith ar gyfer asesu

Assessment of Children in Need and their Families', the 'SEN Code of Practice', and in our development of a common assessment framework. They are central to our other relevant initiatives, including Flying Start, the foundation phase, Children First and Cymorth.

plant mewn angen a'u teuluoedd' a 'Chod Ymarfer AAA Cymru' Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac wrth inni ddatblygu fframwaith cyffredin ar gyfer asesu. Maent yn ganolog i'n mentrau perthnasol eraill, gan gynnwys Dechrau'n Deg, y cyfnod sylfaen, Rhoi Plant yn Gyntaf a Chymorth.

Ariannu Ysgolion School Funding

Q15 Lynne Neagle: What discussions has the Minister had with colleagues in the teaching unions following the publication of the Committee on School Funding's report? OAQ1028(ELL)

C15 Lynne Neagle: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i chymheiriaid yn undebau'r athrawon yn sgil cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Ariannu Ysgolion? OAQ1028(ELL)

Jane Davidson: I discussed the report of the Committee on School Funding at my annual joint meeting with representatives of the teaching unions in Wales on 19 July. I am also discussing it during my current round of biannual individual teaching union meetings.

Jane Davidson: Trafodais adroddiad y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion yn fy nghyfarfod blynyddol â chynrychiolwyr undebau'r athrawon yng Nghymru ar 19 Gorffennaf. Yr wyf hefyd yn ei drafod ar hyn o bryd yn fy nghylch o gyfarfodydd chwe misol â'r undebau'n unigol.